MEDDWL AM **ADDYSG UWCH?**

Cyflwyniad cychwynnol i bobl ifanc am fynediad i brifysgolion a cholegau

HELOA
HIGHER EDUCATION LIAISON OFFICERS ASSOCIATION

Ydych chi:

- Ar fin dewis eich opsiynau blwyddyn 10?
- Ym mlwyddyn 10 neu 11?
- Yn dechrau meddwl beth yr hoffech ei wneud ar ôl gadael yr ysgol?

Os ydych mae'r llyfryn yma i chi!

Bwriad y llyfryn yma ydy ateb llawer o'r cwestiynau sydd gennych am Addysg Uwch a'ch helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Beth ydi Addysg Uwch?	tudalen 1
Ai hyn yw'r peth i mi?	tudalen 1
Pam mynd i Brifysgol neu Goleg?	tudalen 1
Sut beth ydi bywyd fel myfyriwr?	tudalen 2
Pa gyrsiau fedra i astudio?	tudalen 3
Ymhle bydda i'n astudio?	tudalen 4
Sut bydda i'n dewis?	tudalen 4
Pryd y bydda i'n dewis?	tudalen 5
Pryd a sut bydda i'n gwneud cais?	tudalen 6
Pa bynciau y dylwn eu cymryd os wyf eisiau mynd i brifysgol neu goleg yn y dyfodol?	tudalen 6
Ac ar ôl blwyddyn 11?	tudalen 7
Beth os dewisiaf y pynciau anghywir?	tudalen 7
Pa gymwysterau fydda i eu hangen?	tudalen 8
Am beth arall y mae prifysgolion a cholegau yn chwilio?	tudalen 9-10
Beth am y gost?	tudalen10-11
Sut y galla i ddod i wybod mwy am Addysg Uwch?	tudalen 12
Gwefannau defnyddiol	tu fewn i'r clawr cefn

Cofiwch os gwelwch yn dda – arweiniad cyffredinol yn unig yw'r llyfryn hwn ac 'roedd y wybodaeth sydd ynddo'n gywir pan gafodd ei argraffu. Efallai y bydd gan wahanol sefydliadau ofynion gwahanol ac mae gofynion mynediad pob prifysgol a choleg yn debygol o newid o flwyddyn i flwyddyn. Felly, os ydych yn 13 neu'n 14 oed yn awr mae'n bosibl y bydd y trefniadau cyllido myfyrwyr, gofynion mynediad a disgrifiadau o gyrsiau yn wahanol pan fyddwch chi'n barod i wneud cais i brifysgol neu goleg.

Beth ydi Addysg Uwch?

Addysg Uwch ydi'r term a ddefnyddir i ddisgrifio cyrsiau astudio mewn prifysgolion a cholegau sydd ar lefel uwch na'r rhai y gellwch eu gwneud mewn ysgol. Mae'r rhain yn arwain at gymwysterau a elwir yn raddau neu ddiplomâu.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dechrau cyrsiau addysg uwch pan maent yn 17 neu 18 oed ar ôl astudio yn y chweched Dosbarth (Blynyddoedd 12 a 13) mewn ysgol neu goleg. Gall rhai myfyrwyr benderfynu cymryd blwyddyn allan yn gyntaf neu hyd yn oed ddod yn ôl i astudio'n ddiweddarach fel myfyrwyr hŷn.

Mae cyrsiau addysg uwch ar gael mewn amrywiaeth eang o brifysgolion a cholegau ym mhob rhan o wledydd Prydain. Ar hyn o bryd mae mwy na 50,000 ar gael mewn tua 300 o wahanol sefydliadau!

Ai hyn yw'r peth i mi?

Pam lai? Ar hyn o bryd mae tua thraean o'r rhai sy'n gadael ysgolion/colegau yn mynd ymlaen i addysg uwch, a nod y llywodraeth yw bod 50% o bobl ifanc yn cael y cyfle hwnnw o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Pam mynd i Brifysgol neu Goleg?

Am amrywiaeth o resymau:

■ I astudio pwnc arbennig mewn mwy o ddyfnder

Efallai eich bod eisoes yn mwynhau pwnc arbennig yn yr ysgol – fel Cymraeg, Ffrangeg, cemeg, mathemateg neu gerddoriaeth, neu efallai yr hoffech symud i faes newydd - e.e. i astudio tirfesur oherwydd eich bod yn hoffi daearyddiaeth, neu sŵoleg oherwydd eich bod yn hoffi bioleg.

■ Efallai bod angen cymhwyster ar lefel gradd ar gyfer yr yrfa y mae gennych ddiddordeb ynddi

Er enghraifft i fod yn feddyg, deintydd, pensaer, cynllunydd gwlad a thref, athro, cyfreithiwr neu beiriannydd siartredig; neu efallai bod gennych ddiddordeb mewn swydd gyda chyflogau da i bobl gyda graddau neu ddiploma e.e. mewn rheoli, marchnata, bancio, gweinyddu ayyb.

■ I gael y 'Profiad Prifysgol' – mae addysg uwch yn golygu mwy nag astudio'n unig!

Mae bod yn fyfyriwr mewn prifysgol neu goleg yn ehangu eich profiad o'r byd. Byddwch yn cwrdd â phobl newydd o bob rhan o wledydd Prydain a thramor ac o gefndiroedd a diwylliannau amrywiol. Yn ogystal ag astudio fe gewch gyfle i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau cymdeithasol a chyfle i adael cartref hefyd os byddwch eisiau! Mae hyn yn golygu y bydd eich cyfnod mewn addysg uwch yn brofiad gwerth chweil yn ogystal ag yn gyfle i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau a ystyrir yn werthfawr iawn gan gyflogwyr.

Sut beth ydi bywyd fel myfyriwr?

Gofynnwch y cwestiwn hwnnw i 10 o fyfyrwyr gwahanol a byddwch bron yn sicr o gael 10 ateb gwahanol! Mae'n debyg y bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn dweud wrthych fod gennych lawer mwy o ryddid mewn prifysgol neu goleg nag oedd gennych yn yr ysgol a bod hynny'n eich gwneud yn fwy annibynnol a hunan hyderus.

■ **Astudio:** I ddechrau byddwch wedi dewis y pwnc/pynciau rydych yn eu gwirioneddol fwynhau ac mae hynny'n wahanol iawn i'r ysgol! Bydd gennych amserlen wythnosol gyda nifer o ddarlithoedd lle mae nifer fawr o fyfyrwyr yn ysgrifennu nodiadau a gwrando ar wybodaeth a roddir gan y darlithydd. Hefyd fe gewch diwtorialau lle byddwch yn cyfarfod mewn grwpiau llai- tebycach i'r gwersi rydych yn gyfarwydd â nhw yn yr ysgol. Hefyd mewn rhai pynciau ceir sesiynau mwy ymarferol hefyd a gynhelir mewn labordai neu stiwdios dylunio. Mae llawer o'r wythnos yn debygol o fod yn amser astudio preifat lle disgwylir i chi weithio ar eich pen eich hun yn paratoi ar gyfer trafodaeth grŵp neu draethawd, neu'n darllen am bwnc arbennig neu ddatrys problemau.

■ **Llety:** Efallai y byddwch yn byw oddi cartref. Mae llawer o fyfyrwyr, hyd yn oed os ydynt yn mynd i brifysgol neu goleg lleol, yn dewis peidio â byw gartref er mwyn bod yn fwy annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion a llawer o golegau Addysg Bellach yn gwneud hyn yn haws trwy ddarparu llety i lawer o'u myfyrwyr, yn arbennig yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Gall llety fod mewn neuadd breswyl gyda lle i nifer fawr o fyfyrwyr, neu mewn tŷ neu fflat a rennir gan griw bach o fyfyrwyr. Fel rheol byddwch yn cael eich ystafell astudio/cysgu eich hun a thalu rhent i'r brifysgol neu'r coleg. Mewn neuaddau preswyl efallai y ceir prydau bwyd ar adegau penodedig, tra byddwch yn gwneud eich bwyd eich hun mewn rhai eraill. Wrth gwrs, gellwch fyw gartref tra ydych yn astudio mewn prifysgol leol os yw'n well gennych hynny.

■ **Gweithgareddau cymdeithasol:** Mewn prifysgolion a cholegau mae llawer o weithgareddau cymdeithasol yn mynd ymlaen drwy'r amser. Mae Undeb y Myfyrwyr gan bob prifysgol a choleg sy'n trefnu lleoedd i gyfarfod, bwyta ac yfed, yn ogystal â threfnu adloniant rheolaidd megis nosweithiau clwb a cherddoriaeth fyw. Maent hefyd yn cynnal amrywiaeth eang o glybiau a chymdeithasau sy'n amrywio o glybiau chwaraeon, grwpiau gweithredu yn y gymuned, papurau newydd myfyrwyr a gorsafoedd radio i gymdeithasau siocled, grwpiau gwleidyddol a chrefyddol a hyd yn oed glybiau byrddio mynydd. Ceir hefyd gymdeithasau drama myfyrwyr a grwpiau cerddorol o bob math (o gorau a cherddorfeydd i helpu y tu ôl i'r llwyfan fel cynorthwywyr mewn "gigiau") y gall unrhyw un sydd â diddordeb a brwdfrydedd ymuno ynddynt. Weithiau teimlir mai'r broblem fwyaf yw cael amser i wneud unrhyw waith!

■ **Cefnogaeth:** Nid yw bod yn annibynnol yn golygu nad oes unrhyw un ar gael i droi atynt am gymorth. Os ydych yn cael trafferth i roi trefn ar eich bywyd newydd – er enghraifft, rhannu eich amser rhwng bywyd cymdeithasol a gwaith, neu lwyddo i fyw ar yr arian sydd ar gael i chi, gellwch gael cyngor gan bobl fel eich tiwtor personol yn yr adran rydych yn astudio ynddi, y warden yn eich neuadd breswyl neu'r swyddog lles yn y brifysgol.

Pa gyrsiau gallaf eu hastudio?

Yn y rhan fwyaf o bynciau mae cwrs gradd yn para tair neu bedair blynedd, neu fwy os ydych yn dewis astudio cwrs proffesiynol. Os ydych yn dewis astudio'n rhan-amser ac yn gweithio mae amryw o ffyrdd i wneud hyn ac fe all hyd y cyrsiau amrywio. Mae rhai cyrsiau, fel meddygaeth, pensaernïaeth a deintyddiaeth, yn para mwy. Wrth astudio am radd, byddwch yn cael eich cydnabod fel myfyriwr is-raddedig. Ar ddiwedd y cwrs byddwch yn cael gradd yn y pwnc rydych wedi ei astudio. Mae person sydd â gradd yn cael ei alw yn berson graddedig.

Yn hytrach na dilyn yr uchod mae rhai pobl yn dewis dilyn cwrs Gradd Sylfaenol neu ddiploma Addysg Uwch sy'n para dwy flynedd. Mae'r rhain ar gael mewn rhai prifysgolion ac mewn llawer o golegau. Mewn rhai amgylchiadau gellwch symud ymlaen i gwrs gradd ar ôl cael eich diploma.

Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau'n cynnig cyrsiau mewn amrywiaeth eang o bynciau ac yn llythrennol mae yna filoedd ar gael i ddewis o'u plith!

Gellwch astudio unrhyw bwnc rydych eisoes wedi ei astudio yn yr ysgol, neu gellwch roi cynnig ar rywbeth newydd.

- Er enghraifft, os ydych yn dda mewn bioleg a chemeg efallai yr hoffech astudio meddygaeth, microbioleg, gwyddorau ffisiolegol, bioleg môr, gwyddor yr amgylchedd, amaethyddiaeth neu faethiad dynol, i enwi ond ychydig!

- Os ydych yn mwynhau hanes yn yr ysgol, gallwch ddewis cwrs mewn archaeoleg, hanes cynnar, eifftoleg, astudiaethau clasurol, gwleidyddiaeth neu gysylltiadau rhyngwladol.

- Gall sgiliau mewn mathemateg neu ffiseg eich paratoi i astudio peirianneg, seryddiaeth neu economeg.

- Mae llawer o bynciau eraill hefyd yn cael eu cynnig. Er enghraifft arlunio a dylunio, gwyddoniaeth cyfrifiadureg, teithio a thwristiaeth, astudiaethau'r cyfryngau, technoleg cerddoriaeth, pensaernïaeth, ffisiotherapi, gwyddoniaeth chwaraeon, y gyfraith neu reolaeth busnes.

Nid oes rhaid i chi gyfyngu eich hun i un pwnc yn unig. Gyda chyrsiau anrhydedd cyfunol neu anrhydedd ddeuol gellwch astudio dau bwnc (e.e. hanes a gwleidyddiaeth, busnes a Ffrangeg, ffiseg a mathemateg) a gall rhai cyrsiau astudiaethau cyfunol fod yn fwy hyblyg fyth. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau'n awr yn defnyddio fframwaith modiwlaidd ar gyfer llawer o'u cymwysterau. Mae hyn yn golygu bod eu cyrsiau'n cynnwys unedau a elwir yn fodiwlau, sy'n cael eu cyfuno i ffurfio rhaglenni gradd, gradd sylfaen neu ddiploma. Yn aml mae hyn yn ei gwneud yn haws i astudio detholiad o fodiwlau o wahanol bynciau o fewn eich cymhwyster.

Yn y rhan fwyaf o achosion mae blwyddyn Prifysgol wedi ei rhannu'n ddau "semester" sy'n cynnwys 12 wythnos o ddysgu a thair wythnos ar gyfer adolygu ac arholiadau (e.e. Medi i Ragfyr, gydag arholiadau yn Ionawr, a Chwefror i Fai, gydag arholiadau ym Mehefin). Asesir llawer o gyrsiau hefyd drwy waith cwrs ac asesiadau drwy gydol y tymor a bydd nifer yr arholiadau a fydd gennych yn dibynnu ar y cwrs a ddewiswch.

Mae rhai cyrsiau'n cynnwys treulio blwyddyn gyfan, neu gyfnodau byrrach, yn gweithio mewn diwydiant neu fusnes. Gelwir y rhain yn rhyng-gyrsiau yn aml. Mae cyrsiau eraill, fel ieithoedd modern, fel rheol, yn cynnwys blwyddyn yn gweithio neu'n astudio dramor. Mae llawer o gyrsiau mewn amrywiaeth eang o bynciau eraill hefyd yn rhoi cyfle i chi astudio mewn gwlad dramor fel rhan o raglen gyfnewid.

Ymhle bydda i'n astudio?

Chi fydd i benderfynu hynny. Bydd yn rhaid i chi ddewis nid yn unig pa bwnc i'w astudio ond pa brifysgolion neu golegau i wneud cais iddynt:

- Mae rhai ynghanol dinasoedd mawr, tra bo eraill yng nghefn gwlad.
- Mae rhai wedi eu rhannu rhwng nifer o safleoedd, tra bo eraill ar safleoedd neu gampysau sydd wedi eu hadeiladu'n bwrpasol ar eu cyfer.
- Maent yn amrywio o ran maint ac mae gan bob un ei dull o weithredu a'i hawyrgylch arbennig ei hun.

Gellwch wneud cais i unrhyw le yng ngwledydd Prydain, waeth lle y bo eich cartref. Mae llawer o fyfyrwyr yn manteisio ar y cyfle i adael cartref, ond bydd eraill yn penderfynu byw gyda'u teulu.

Sut bydda i'n dewis?

Mae pob prifysgol a choleg yn cynhyrchu llyfr (am ddim) a elwir yn brosbectws sy'n rhoi manylion am ei holl raglenni gradd a diploma, gofynion mynediad a phethau pwysig eraill fel llety, cyfleusterau chwaraeon a chymdeithasol a manylion am y dref neu'r ddinas agosaf. Bydd y wybodaeth hon ar gael yn fwy manwl hefyd ar wefan y brifysgol neu'r coleg.

Trwy ddarllen prosbectysau/gwefannau ac ymweld â phrifysgolion a cholegau ar gyfer dyddiau agored, byddwch yn gallu penderfynu beth yr hoffech ei astudio ac ymhle. Fel rheol fe welwch hefyd pa raddau y bydd arnoch eu hangen i gael eich derbyn. Bydd eich ysgol neu goleg, yn ogystal â'ch Gwasanaeth Cysylltiadau neu gwmni gyrfaoedd lleol, hefyd yn cynnig help ac arweiniad pellach i chi.

Pryd y bydda i'n dewis?

Nid yw byth yn rhy fuan i ddechrau meddwl am Addysg Uwch. Yn ystod Blynyddoedd 10 neu 11 byddwch yn cael cyfle i siarad ag athrawon a chynghorwyr gyrfaoedd i drafod beth yr hoffech ei wneud pan fyddwch yn gadael yr ysgol, yn cynnwys y posibilrwydd o fynd ymlaen i brifysgol neu goleg. Efallai y bydd yn fuddiol i chi edrych ar ychydig o brosbectysau ym mlwyddyn 11 pan ydych yn penderfynu pa bynciau i'w cymryd ar ôl TGAU (neu gyfwerth) i weld os ydynt yn addas i ofynion y cwrs y bydd gennych ddiddordeb ynddo. Fodd bynnag, dylech gofio y gall cyrsiau a gofynion mynediad newid o flwyddyn i flwyddyn. Felly, os edrychwch ar brosbectws rai blynyddoedd ymlaen llaw, mae bron yn sicr y bydd y manylion wedi newid erbyn yr amser y byddwch chi'n gwneud cais i fynd i brifysgol neu goleg.

Mae'n bwysig, yn yr amser yma, i chi roi cynnig ar bethau y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Siaradwch gyda phobl sydd yn gwneud y swydd yr hoffech chi wneud neu gyda myfyrwyr sydd eisoes wedi astudio'r cwrs y mae gennych ddiddordeb ynddo. Bydd hyn yn help i chi benderfynu os ydi yn rhywbeth y byddech chi yn mwynhau ac/neu yn dda ynddo.

Unwaith rydych ym mlwyddyn 12 bydd angen i chi ddechrau ymchwilio o ddifrif trwy ddarllen cyfeiriaduron, canllawiau a phrosbectysau unigol addysg uwch, yn ogystal ag ymweld â phrifysgolion a cholegau ar eu dyddiau agored a mynd i Gonfensiynau Addysg Uwch lle bydd yn bosib gofyn i'r prifysgolion am eu cyrsiau. Cedwir prosbectysau yn y rhan fwyaf o lyfrgelloedd gyrfaoedd ysgolion. Gellwch gael eich copi eich hun hefyd drwy gysylltu ag unrhyw brifysgol neu goleg. Gallwch hefyd gael y rhan fwyaf o'r wybodaeth a fydd angen arnoch ar wefan y brifysgol neu'r coleg, lle byddwch hefyd, mwy na thebyg, yn cael dewis archebu prosbectws papur.



Pryd a sut y byddai'n gwneud cais?

Fel rheol byddwch yn gwneud cais yn ystod hydref Blwyddyn 13 (neu'r hyn sy'n gyfwerth i hynny mewn coleg), sef y flwyddyn cyn yr hoffech ddechrau ar eich cwrs. Dim ond un ffurflen gais y bydd angen i chi ei llenwi, ond gallwch ei defnyddio i wneud cais i hyd at chwech o gyrsiau/sefydliadau. Byddwch yn gwneud cais drwy system ganolog, sef Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau (UCAS), ac fe gewch ddigon o help a chefnogaeth gan eich ysgol neu goleg pan ddaw'r amser!

Pa bynciau y dylwn eu cymryd os wyf eisiau mynd i brifysgol neu goleg yn y dyfodol?

Mae hwn yn gwestiwn synhwyrol, ond mae'n un anodd i'w ateb oherwydd gall ddibynnu ar beth yr hoffech ei astudio ymhen rhai blynyddoedd. Wrth gwrs, mae gwahaniaeth mawr rhwng yr hyn y bydd arnoch angen ei astudio ar gyfer cerddoriaeth a'r hyn y bydd arnoch angen ei astudio ar gyfer microbioleg! Fodd bynnag, gallwn gynnig tipyn o gyngor cyffredinol i chi.

- Cofiwch y bydd arnoch angen graddau TGAU da, (neu gyfwerth), i gael eich derbyn i brifysgol neu goleg a graddau da wedyn mewn lefel A (neu gymhwyster cyfwerth) - ac rydych yn debygol o wneud y gorau mewn pynciau rydych yn eu mwynhau ac yn dda ynddynt.

- Ceisiwch gymryd pynciau a fydd yn rhoi addysg gyffredinol dda i chi gyda sylfaen eang ar gyfer dewis beth yr hoffech ei astudio'n ddiweddarach. Bydd cwricwlwm eich ysgol yn sicrhau y gellwch astudio amrywiaeth eang o bynciau, e.e. Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes/daearyddiaeth. Mae'n bosibl y gellwch hefyd gymryd pynciau ychwanegol i ddilyn eich diddordebau a'ch medrau neilltuol (e.e. cerddoriaeth, drama, celf neu iaith dramor).

- Os ydych yn gwybod eisoes beth rydych yn debygol o fod eisiau ei astudio mewn Addysg Uwch, byddai'n syniad da i chi holi eich athrawon i weld a oes yna unrhyw bynciau TGAU neilltuol y mae arnoch eu hangen ar gyfer y cwrs hwnnw.

Ac ar ôl blwyddyn 11?

Pan ddewch i ddewis eich pynciau lefel A (neu gyfwerth), efallai y byddwch yn gwybod eisoes beth yr hoffech ei astudio'n ddiweddarach. Felly, dylech edrych mewn prosbectysau prifysgolion neu golegau i weld pa bynciau yw'r rhai mwyaf priodol i chi eu cymryd. Os nad ydych wedi penderfynu beth yr hoffech ei wneud yn ddiweddarach, mae'n debygol mai'r peth gorau yw cymryd y pynciau rydych yn gwneud orau ynddynt ac yn eu mwynhau. Dylech ofyn i'ch athrawon hefyd a ydych yn dewis cyfuniad synhwyrol o bynciau. Efallai yr hoffech edrych mewn nifer o brosbectysau prifysgolion neu golegau yn ogystal i weld beth y gallech ei wneud yn ddiweddarach gyda dewis cytbwys o bynciau, a pha raddau y bydd arnoch angen eu cael. Mae gofynion pwnc ar gyfer llawer o gyrsiau yn fater o synnwyr cyffredin. Er enghraifft, bydd angen i chi gael Ffrangeg i astudio Ffrangeg a hanes i astudio hanes ayyb!

Fodd bynnag, fe welwch fod angen cemeg yn ogystal â bioleg ar gyfer llawer o gyrsiau bioleg, ac ar gyfer cyrsiau fel ffiseg neu beirianneg mae angen ffiseg a mathemateg yn aml. Felly, efallai y bydd angen i chi fod ychydig yn fwy gofalus o'ch dewisiadau os oes gennych ddiddordeb yn y math yma o faes.

Beth os dewisiaf y pynciau anghywir?

Os ydych yn cymryd un grŵp o bynciau mewn lefel A (neu gyfwerth) – er enghraifft, daearyddiaeth, hanes a Saesneg – a sylweddoli'n ddiweddarach y dylech fod wedi gwneud pynciau gwyddonol, peidiwch â digalonni. Mae rhai prifysgolion yn cynnal cyrsiau sylfaen blwyddyn i'ch helpu i drosi i wyddoniaeth neu beirianneg, a hyd yn oed i feddygaeth a deintyddiaeth, os ydych wedi gwneud y pynciau lefel A (neu gyfwerth) anghywir.

Wrth gwrs, efallai na fydd angen unrhyw bynciau lefel A penodol ar gyfer llawer o gyrsiau gradd ac felly yn achos y rhain ni fydd gwahaniaeth pa bynciau rydych wedi eu cymryd. Felly, er y dylech geisio cynllunio yn ddoeth ymlaen llaw, mae'n debyg y gellwch gael hyd i gwrs addas mewn prifysgol neu goleg beth bynnag fo'r pynciau y gwnaethoch eu hastudio yn yr ysgol. Mae hyn yn golygu hefyd na fydd yn rhaid i chi boeni gormod os bydd eich diddordebau a'ch syniadau'n newid dros y blynyddoedd.



Pa gymwysterau fydda i eu hangen?

Cymwysterau ôl-16:

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn aros yn yr ysgol i'r Chweched Dosbarth neu'n mynd i goleg am ddwy flynedd ar ôl gwneud eu TGAU (neu arholiadau cyffelyb). Mae llawer ohonynt yn cymryd dau neu dri phwnc Lefel A (gan ddechrau ag UA a mynd ymlaen i A2), tra gall eraill ddewis astudio am gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Mae yna lawer o gymwysterau eraill cyfwerth y gall myfyrwyr astudio ar eu cyfer, yn cynnwys y Fagloriaeth Ryngwladol, Y Fagloriaeth Gymreig neu Gymwysterau Uwch yr Alban.

Pynciau penodol:

Mae gofynion mynediad penodol ar gyfer pob cwrs mewn prifysgol. Er enghraifft, fel rheol bydd angen i chi astudio hanes ar gyfer lefel A (neu gyfwerth) am ddwy flynedd er mwyn astudio hanes, a dyna'r egwyddor hefyd ar gyfer pynciau fel Ffrangeg a daearyddiaeth ayyb. Os ydych eisiau astudio meddygaeth bydd angen i chi astudio pynciau gwyddonol, yn cynnwys cemeg ac/neu fioleg fel rheol, ac efallai y bydd arnoch angen mathemateg a ffiseg ar gyfer llawer o gyrsiau peirianneg.

Fodd bynnag, nid oes angen unrhyw bynciau arbennig ar gyfer llawer o gyrsiau oherwydd y byddwch yn dechrau'r pwnc yn hollol o'r newydd mewn prifysgol. Ar gyfer rhai cyrsiau, megis seicoleg, gall cefndir gwyddonol neu fathemategol fod o gymorth. Yn achos eraill, gall cymysgedd o gelfyddydau a gwyddorau mewn lefel A bod yn fanteisiol. Ar gyfer y cyrsiau hyn i gyd bydd arnoch angen graddau da ym mha bynciau bynnag rydych wedi eu cymryd a bydd yn rhaid i chi ddangos eich bod yn rhywun addas i wneud yn dda yn y pwnc hwnnw. Yn yr Alban (lle mae llawer o gyrsiau gradd yn para am bedair blynedd yn hytrach na thair) efallai na fydd yn rhaid astudio pwnc arbennig yn yr ysgol cyn mynd ymlaen i'w astudio mewn prifysgol neu goleg.

Cymwysterau 14-16

Yn gyffredinol, mae o gymorth os ydych wedi pasio amrywiaeth dda o bynciau TGAU gyda gradd C neu uwch neu wedi pasio yn dda yn Y Diploma Uwch, gan fod hynny'n rhoi syniad da i brifysgolion a cholegau o'ch gallu academaidd. Bydd y rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau'n gofyn am radd C neu uwch mewn Iaith Saesneg TGAU (neu gyfwerth) fel rhan o'u gofynion mynediad cyffredinol (mae sefydliadau yng Nghymru'n derbyn gradd C mewn Cymraeg Iaith yn lle hynny). Efallai y bydd angen o leiaf radd B/C mewn mathemateg TGAU ar gyfer rhai cyrsiau (e.e. economeg neu astudiaethau busnes) neu mewn iaith dramor (e.e. ar gyfer cwrs rheolaeth busnes Ewropeaidd).

Os ydych yn ystyried mynd yn athro/athrawes mae'n un o ofynion y llywodraeth bod gennych radd C TGAU (neu gyfwerth) mewn mathemateg a Saesneg, ac yn ogystal bydd arnoch angen pwnc gwyddonol i ddysgu mewn ysgolion cynradd.

Graddau sydd eu hangen:

Bydd y graddau y bydd arnoch eu hangen yn amrywio yn dibynnu ar y pwnc a'r brifysgol y mae gennych ddiddordeb ynddynt. Bydd rhai prifysgolion yn gofyn i chi gael graddau arbennig yn eich dau neu dri phwnc lefel A cryfaf, (neu gyfwerth), tra bydd eraill yn defnyddio system bwyntiau UCAS, lle rydych yn cael pwyntiau am bob gradd a enillwch sy'n mynd tuag at gyfanswm cyffredinol. Pa ddull bynnag a ddefnyddir, gall y brifysgol osod graddau penodol i chi ei chyrraedd mewn rhai pynciau.

Mae rhai cyrsiau'n hynod boblogaidd a gallant gael gofynion mynediad uchel iawn. Cyn i chi wneud cais dylech weld beth yw'r gofynion mynediad arferol a gwneud yn siŵr eich bod yn disgwyl ennill y graddau angenrheidiol.

Gellwch edrych mewn llawlyfrau swyddogol a phrosbectysau / gwefannau prifysgolion i weld beth yw'r gofynion mynediad a bydd y Swyddfa Dderbyn ymhob sefydliad yn gallu rhoi gwybodaeth i chi am gyrsiau penodol.

Am beth arall y mae prifysgolion a cholegau yn chwilio?

Pan fyddwch yn gwneud cais am le mewn prifysgol neu goleg bydd y staff derbyn yn edrych hefyd ar beth rydych wedi ei wneud y tu allan i'ch astudiaethau – eich hobïau a'ch diddordebau yn yr ysgol/coleg a thu allan iddynt. Maent yn cymryd sylw o brofiadau fel lleoliadau gwaith neu waith gwirfoddol ac unrhyw swyddi â chyfrifoldeb sydd gennych yn yr ysgol neu mewn mannau eraill. Mae'r wybodaeth ychwanegol yma yn eu helpu i lunio darlun mor llawn â phosibl ohonoch ac mae'n cyfrannu at benderfyniadau p'un ai i gynnig lle i chi ar y cwrs o'ch dewis neu beidio.

Beth am y gost?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cafwyd nifer o newidiadau yn y ffordd y caiff myfyrwyr prifysgol a cholegau eu cyllido, ac efallai y bydd newidiadau pellach cyn i chi adael yr ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r trefniadau presennol ar gyfer myfyrwyr a fydd yn dechrau mewn prifysgol o 2010 ymlaen yng Nghymru a Lloegr.

Nid oes disgwyl i unrhyw fyfyriwr na'u teuluoedd gael eu harian eu hunain i'w cefnogi drwy'r Brifysgol. Felly mae hyn yn golygu nad oes raid i'ch teulu boeni ynglŷn a allant ei fforddio. Gallwch astudio'n gyntaf, a dim ond talu'n ôl pan fyddwch yn ennill mwy na £15,000. Mae dau brif fath o gostau y dylech fod yn ymwybodol ohonynt - y ffioedd hyfforddiant (ffioedd cwrs) a chostau byw.

Bydd cymorth ar gael gan y llywodraeth ar ffurf Grantiau i Fyfyrwyr a Benthyciadau i Fyfyrwyr. Math arbennig o fenthyciadau gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yw'r rhain. gyda lefel o ad-daliad yn gysylltiedig â'ch incwm unwaith y dechreuwch ennill £15,000 y flwyddyn. Bydd yna hefyd fwrsariaethau a chymorth ariannol ar gael o brifysgolion a cholegau. Cyllidir rhai cyrsiau ym maes iechyd gan Ysgoloriaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel (GIG) rhan o'i rhaglen, a bydd y myfyrwyr hynny yn cael eu ffioedd ac efallai rhan o'u costau byw wedi eu talu gan GIG.

Ffioedd Cwrs

Ni fydd yn rhaid i unrhyw un dalu unrhyw ffioedd, naill ai ar ddechrau'r cwrs na thra byddant yn astudio (er y gellwch wneud os ydych eisiau!). Mae hyn yn golygu nad oes raid i'ch teulu boeni ynglŷn a allant fforddio i chi fynd i Brifysgol neu beidio.

Yn hytrach, byddwch yn gallu benthyca'r arian drwy system o fenthyciadau arbennig i fyfyrwyr. Dim ond ar ôl i chi adael y brifysgol a dechrau ennill mwy na £15,000 y flwyddyn y mae'n rhaid i chi ddechrau talu'r arian hwn yn ôl.

Costau Byw

Yng Nghymru a Lloegr gall y llywodraeth ddarparu Grant Gynhaliaeth i fyfyrwyr, os yw incwm eich teulu o dan lefel arbennig, ac ni fydd raid i chi dalu'n ôl. Gellwch hefyd fenthyca arian bob blwyddyn gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, fydd yn rhaid i chi dalu'n ôl unwaith y byddwch yn ennill.

Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau hefyd yn cynnig bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i helpu myfyrwyr ariannu eu cyrsiau. Mae'n werth edrych ar eu gwefannau i gael gwybodaeth am beth sydd ar gael gan bob sefydliad.

Mae rhai myfyrwyr hefyd yn dewis gweithio'n rhan-amser tra maent yn astudio i ennill arian ychwanegol. Mewn llawer o brifysgolion a cholegau ceir cynlluniau cyflogi myfyrwyr a all eich helpu i gael hyd i waith addas. Os hoffech gael mwy o wybodaeth yn awr gellwch holi eich athro gyrfaoedd neu edrych ar y rhyngrwyd (ceir nifer o gyfeiriadau defnyddiol ar y dudalen ôl), ond mae'n rhaid i chi hefyd gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y flwyddyn y byddwch yn gwneud cais am le mewn prifysgol neu goleg.

Mae'n rhaid i chi edrych ar Addysg Uwch fel buddsoddiad ar gyfer eich dyfodol. Ar ôl graddio fe ddylech weld bod yna lawer mwy o amrywiaeth swyddi a chyflogau gwell ar gael i chi, a dylech gofio na fydd yn rhaid i chi ddechrau talu eich benthyciad myfyriwr yn ôl nes byddwch yn ennill mwy na £15,000. Ar ben hynny, os gwnewch y gorau o'ch amser mewn Addysg Uwch, dylai profiad bywyd myfyriwr fod yn werth pob ceiniog!

Sut y galla i ddod i wybod mwy am Addysg Uwch?

Bydd cynghorwyr gyrfaoedd eich ysgol neu goleg, neu eich swyddfa Connexions neu Gwmni Gyrfaoedd lleol, yn gallu rhoi llawer o help a chyngor i chi ynglŷn â gwneud cais i brifysgol neu goleg. Hefyd mae pob prifysgol a choleg yn trefnu gweithgareddau a digwyddiadau i helpu disgyblion ysgol i ddarganfod mwy am Addysg Uwch (er enghraifft, gweithdai, teithiau o amgylch y campws, ymweliadau ag ysgolion, dilyn myfyrwyr wrth eu gwaith, sesiynau blasu ac ysgolion haf ayyb). Efallai y bydd eich ysgol neu goleg hefyd yn trefnu i rywun o'ch prifysgol leol ddod draw i siarad â'ch grŵp blwyddyn am ddewisiadau Addysg Uwch a'r broses ymgeisio.

Pan ddewch i Flwyddyn 12, efallai yr hoffech ymweld â phrifysgol i weld drosoch eich hun sut le ydyw. Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion a cholegau'n trefnu dyddiau agored ac anfonir manylion at bob ysgol a choleg. Dylech gael cyfle hefyd i fynd i gonfensiwn Addysg Uwch yn eich rhanbarth lle gellwch siarad â chynrychiolwyr o nifer fawr o brifysgolion a cholegau a chael manylion am eu cyrsiau gradd a diploma.

Mae'n debyg bod copïau o holl brosbectysau prifysgolion a cholegau yn llyfrgell eich ysgol, yn ogystal â nifer o ganllawiau cyffredinol megis "University and College Entrance: The Official Guide". Nodir, hefyd, nifer o wefannau defnyddiol ar du fewn i dudalen ôl y llyfryn hwn.

Os hoffech gael eich copi eich hun o brosbectws neu wybodaeth bellach am wahanol gyrsiau, dylech gysylltu â'r adran Gyswllt Ysgolion neu Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr yn y brifysgol neu'r coleg perthnasol, neu gallwch ymweld â'i gwefan.



Gwybodaeth ychwanegol am Addysg Uwch a'r cymorth sydd ar gael

www.aimhigher.ac.uk – gwybodaeth pam y gallai Addysg Uwch fod y dewis iawn i chi.

www.aimhigher.ac.uk/uni4me/home – mwy o wybodaeth am yr hyn sydd gan brifysgolion i'w gynnig.

www.apprenticeships.org.uk – Mae prentisiaid yn gweithio ac astudio'r un pryd. Mae'r wefan hon yn rhoi'r wybodaeth sydd arnoch ei angen am brentisiaethau a dysgu yn y gweithle.

www.thebrightsidetrust.org – Mae'r "Brightside Trust" yn elusen addysgol sy'n cynnig e-gynghori a phrofiad gwaith i bobl ifanc sy'n meddwl am addysg uwch.

www.connexions-direct.com – gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc.

www.findfoundationdegree.co.uk – gwybodaeth am beth yw gradd sylfaen ac ymhle y maent ar gael.

www.learndirect.co.uk – yn cynnig ffyrdd i astudio am radd tra'n gweithio llawn-amser.

www.skill.org.uk – elusen genedlaethol sydd yn helpu pobl ifanc, dros -16, gydag unrhyw fath o nam i astudio ôl 16, mewn hyfforddiant neu mewn swydd.

http://www.dysgu.cymru.gov.uk – gweler gwefan hyfforddiant ac addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru am y wybodaeth ddiweddaraf.

Gwybodaeth am wneud cais a dewis eich cwrs

www.ucas.com – safle swyddogol y Gwasanaeth Derbyniadau Prifysgolion a Cholegau. Ymholwch pa gyrsiau sydd ar gael, ymhle y maent a sut i wneud cais.

www.hotcourses.com – cyfeiriadur o'r holl gyrsiau sydd ar gael

www.opendays.com – mae'r safle yma'n rhestru dyddiau agored y mwyafrif o sefydliadau Addysg Uwch yn y Deyrnas Unedig.

www.unistats.com – mae'r safle yma yn eich galluogi i gymharu cyrsiau a sefydliadau.

Deall cyllid myfyrwyr

www.dfes.gov.uk/studentsupport – gwybodaeth swyddogol gan y llywodraeth am drefniadau cyllid myfyrwyr ar hyn o bryd.

www.uniaid.org.uk – elusen sydd yn helpu myfyrwyr trwy roi gwybodaeth am nawdd i astudio ymhellach.

http://unimoney.direct.gov.uk – cyngor defnyddiol am gyllid myfyrwyr.

Gwybodaeth am fywyd myfyrwyr

www.fullonmag.co.uk – fersiwn ar-lein o'r cylchgrawn "Full-On"- cylchgrawn i bobl ifanc mewn ysgol neu goleg.

www.nusonline.co.uk – gwefan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr.

www.realuni.com – golwg wahanol ar addysg uwch, wedi ei ysgrifennu gan fyfyrwyr presennol ar gyfer darpar fyfyrwyr.

www.studentzone.org.uk – bywyd myfyriwr yn cael ei esbonio.

www.yougo.co.uk – cyngor penigamp i fyfyrwyr i'ch paratoi ar gyfer addysg uwch.

Gyda dros 50,000 o wahanol gyrsiau a dros 300 o sefydliadau ar gael, gall dewis pa brifysgol neu goleg i fynd iddo fod yn waith anodd. A beth ydi'r rhesymau dros fynd ymlaen i addysg uwch yn y lle cyntaf?

Mae Cymdeithas Swyddogion Cyswllt Addysg Uwch (HELOA) yn sefydliad sy'n delio'n benodol â rhoi'r math hwn o wybodaeth a chyfarwyddyd, ac mae ganddi aelodau o Brifysgolion a Cholegau Iedled Prydain. Rydym yn cynnig cyngor diduedd ac am ddim a gallwn gynghori myfyrwyr, eu teuluoedd, swyddogion gyrfaoedd ac athrawon ynglŷn â'r gwahanol ddewisiadau sydd ar gael, materion lles a'r datblygiadau diweddaraf mewn Addysg Uwch.
I gael mwy o wybodaeth am HELOA a'r gwasanaethau y mae ein haelodau'n eu cynnig, ymwelwch â'n gwefan www.heloa.ac.uk os gwelwch yn dda

HELOA Office
External Relations
University of Essex
Wivenhoe Park
Colchester
Essex CO4 3SQ
www.heloa.ac.uk

heloa@essex.ac.uk
ffôn: 01206 873955
ffacs: 0871 661 5779

recycle ailgylchu
Please recycle this publication
Cofiwch ailgylchu cyhoeddiad yma
100% ailgylchwyd
Argraffwyd y daflen yma ar bapur ailgylchu 100%

Argraffwyd gan HELOA 2009.
Lluniau - istock photo